

Y system nerfol

Mae gennym 5 organ synhwyro sy'n cynnwys celloedd derbyn. Mae'r celloedd derbyn hyn yn canfod ysgogiadau allanol ac yn anfon signal trydanol ar hyd niwronau i'r prif system nerfol (CNS) sy'n cynnwys yr ymennydd a madruddyn y cefn i gydlynu ymateb.

Organ synhwyro	Ysgogiad
Llygad	Golau
Clust	Sain
Trwyn	Arogleuon cemegol
Tafod	Blasau cemegol
Croen	Poen, gwasgedd, tymheredd

Y llwybr atgyrch - Haen uwch


Dyma'r llwybr mae cynhyrriad trydanol yn ei gymryd o ysgogiad i ymateb gan effeithydd (cyhyr neu chwarrren).

Mae ymateb atgyrch bob amser yn:

- Gyflym
- Awtomatig

ac yn amddiffynol ar y cyfan.

Dangosir gweithred atgyrch tynnu'n ôl yma lle mae adwaith awtomatig i'r badell boeth yn achosi tynnu'n ôl o'r ardal yn gyflym.




Adborth negyddol - Mae unrhyw newid o'r balans dan amodau mewnol optimaidd yn arwain at systemau hormonaidd a nerfol y corff yn gwneud iawn am y newid ac yn adfer y cydbwysedd.

Homeostasis

Homeostasis yw cynnal amgylchedd mewnol cyson.

Rheoli Glwcos

Mae'r swm o glwcos yn eich gwaed yn cael ei reoli gan hormonau (negesyddion cemegol) sy'n teithio yn y gwaed o'r chwarrren lle maent yn cael eu cynhyrchu, yn yr achos hwn y pancreas, i'r organ darged, yn yr achos hwn yr afu.



Diabetes

Mae diabetes yn gyflwr lle na allwch reoli lefelau glwcos eich gwaed. Gyda **Diabetes Math I** nid yw'r corff yn rhyddhau inswlin. Gyda **Diabetes Math II** nid yw celloedd y corff yn ymateb i'r signal cemegol o inswlin.

Symptomau:


Glwcos mewn wrin a ganfyddir gan brawf Benedict.

Triniaethau:

*Chwistrellu inswlin *trawsblaniadau pancreas *deiet isel mewn siwgr/ carbohydradau


Y llygad - BIOLEG YN UNIG

Mae dwy weithred atgyrch a astudiwyd yn digwydd yn y llygad. Amrantu ac atgyrch kannwyll y llygad.




Rheoli tymheredd

Rhy boeth	Rhy oer
Mae blew yn gorwedd yn fflat.	Mae blew yn sefyll i fyny i ddal haenen o aer ynysol dros groen gan leihau colledion gwres.
Chwysu - Haenen o chwys hylifol a wneir gan chwarennau chwys sy'n cael ei gario i fyny gan dwythellau chwys a'i ryddhau gan fandyllau chwys ar y croen, ac sy'n anweddu gan gael gwared ar egni gwres.	Crynu - Mae cyhyrau'n cywasgu'n anwirfoddol ac yn cynyddu resbiradaeth a rhyddhau egni gwres.
Fasoymlediad - Mae pibellau gwaed yn y croen yn lledu fel bod mwy o wres o'r gwaed yn cael ei golli i'r amgylchedd.	Fasogyfyngiad - Mae pibellau gwaed yn y croen yn mynd yn gulach felly mae llai o wres yn cael ei golli o'r gwaed i'r amgylchedd.



Ffototropedd- Bioleg yn unig

Tropedd yw ymateb twf mewn planhigyn i ysgogiad un cyfeiriol. Mae'n cael ei achosi wrth i'r hormon awcsin gael ei ryddhau.



Ffactorau ffordd o fyw

Deiet - Gall deiet sy'n uchel mewn siwgrau a charbohydradau arwain at ordewdra a diabetes math II.

Gall **camddefnyddio cyffuriau ac alcohol** arwain at **ddibyniaeth** lle mae pobl yn dioddef symptomau **diddyfnu** os na allant ei ddefnyddio.

Mae alcohol yn achosi **amseroedd adweithio arafach** ar unwaith, ac yn y tymor hir gall achosi **clefyd yr afu, clefyd cylchrediad y gwaed a chlefyd y galon**.